WG 35. S. 151

# MARWNAD.

**Er Coffadwriaeth am dri o Flaenoriaid y Trefnyddion Calfinaidd y rhai a gymerwyd ymaith gan angau sef:-- William Powell, Pentwyn, yr hwn, a fu farw Mehefin 21n yn, 74 o'i oed; William Price, Llwynbronfydd, a fu farw Mehefin 24n yn, 73 o'i oed; a John Powell, Ty'nyberllan, bu farw Gorphenaf y 13g yn, 67 o'i oed, yn yr un flwyddyn bu feirw y tri sef yn 1856.**

1—Y mae angau y dyddiau yma,
Au Saeth yn llym-dyn ar ei fwa,
Nid bygwth mae e'ar ei ergyd,
Gwna 'n fuan ddryllio 'r babell briddlyd.

2—Yn awr gosodaf i'ch clywedigaeth,
Pa fod y gwnaeth yn ein Cymdogaeth;
Sef yn Llanfihangel gwnewch fy-ngredu,
Gwnaeth dori Tri o deulu'r Iesu.

3—William Powell, Pentwyn, fu yn ddiwyd,
Yng ngwaeth Duw trwy boen ac adfyd,
Gwnaeth gario faner gôch Calfaria,
Hyn oedd ei fryd trwy hyd ei yrfa.

4—Bu am flynyddau yn methu gweled,
Ac ychydig iawn a oedd yn glywed,
Ond etto yr oedd yn cael diddanwch,
Na's gwyr y byd ddim o'i ddirgelwch.

5—Nid oes le i neb i amau,
Na chas 'e ran yn mhlith y seintiau,
Mae wedi dechre yr anthem hono,
O'i meddianu nid y'nt yn blino.

6—Dydd rhowd Powell lawr i orwedd,
Yn ngwaelod bedd yn wael ei agwedd,
Daeth i'r Cyfarfod newydd chwerw,
Fod Cyfaill arall wedi marw.

7—Sef Wm. Price gynt o Llwynbronfydd,
'Rhwn oedd mewm ymdrech a diwydrwydd,
Trwy ddy weyd fod Iachawdwr parod,
I bawb a gredo yn y Duwdod.

8—Bu Price am hirfaith o flynyddau,
Yn canmol Duw am ei drefniadau,
Trwy agor llwybr i bechaduriaid,
Yn nghlwyfau 'r Iesu er cael ymwared.

9—Ond mae e' heddyw wedi gorphen,
Ni chaif e mwy i rodio'r ddaeren,
Caiff foli yr Iesu am ei brynu,
Tu draw i'r llen yngwlad goleuni.

10—Angau ddaeth heb fawr o bardwn,
'Rol iddo yn fuan gael commission,
Gwnaeth alw heibo i Dy'nberllan,
Aeth a John Powell yn dra buan.

11—Prin pythefnos gadd o ddyddiau,
I rhag-bartoi fynd idd ei siwrnau,
O'r dydd cyntaf i'r dydd diwedda,
Nes i angau derfynu ei yrfa.

12—Gwr haelionus da a diwyd,
Oedd Mr. Powell yn ei fywyd,
Lletyo'dd weision Iesu heb amau,
Dros fwy nag ugain o flynyddau.

13—Mae wedi diangc ar ofidiau.
Y byd i gyd a'u holl drallodau,
Ac nid oes amau genyf heddi,
Nad'mynwes Abra'am mae yn cartrefi.

14—Rhy bryng tair wythnos oedd o ddydiau,
Oedd rhwng y tri pan rhowd mewn beddau,
Ac yno bydd ei llwch yn gorwedd,
Hyd nes bloddio yr udgorn auraidd.

15—Bydded hyn yn codi dychryn,
Yn yr ardal maint yn perthyn,
I ofyn am Iesu 'r Cyfaill gorau,
Pan byddo pawb yn troi ei cefnau.

16—Duw ddygo hyn dan ystyriaethau,
Fod rhaid i'n oll fynd yr un siwrnau,
R'hon na ddychwelwn nol o honi,
Nac un cyfnewid i neb ynddi

17—P'am gwnest angau mor greuloned,
A mynd a thri o hen Faenoriaid,
Oedd 'nghapel Bethel yn llywyddu,
Am flynyddau er daioni.

18—O angau ti a wnest yn greulon,
I fynd a thri o rhai mor ffyddlon,
Yngwaith Duw am hir flynyddau,
Yn dweyd fod Ceidwad i bawb a gredau.

19—Bethel Bethel ti gest golled,
Mwy nag wyt eto yn amgyffred,
Colli tri o fyddlon weision,
Fu yma am flynyddau meithion.

20—Duw gyflawno ei addunedau,
I godir meibion yn lle yr tadau,
Fel delo Bethel i enwogi,
O rhai fyddlon yngwaith Iesu.

21—Coded awydd mewn rhai newydd,
I chwilo 'r ysgrythyrau beunydd,
Canys yn y rhai'n mae gobaith bywiol,
Am fwynhad 'fywyd tragywyddol.

22—Ac fel y byddont yn ddefnyddiol,
I argyhoeddi llu o bobl,
A'i dwyn at Iesu 'r noddfa hynod.
A rhag y dydd pan del y gafod.

23—Hyn dry 'n elw y dydd hwnw,
Cael 'nabod Iesu erbyn marw,
Pan byddo 'n ffryns a'n holl gyfeillion,
Yn methu dod ond hyd yr afon.

24—Dyma fan lle na ddaw 'r gelyn,
Byth i frathu neb a'u golyn,
Dyma fan lle na ddaw llygredd,
Mewn i lys y teulu auraidd.

25—Wel bellach angau 'r gelyn creulon,
Mi ddihanga o'th afaeilon,
Ni chyfarfyddaf a thi ond hyny,
Mewn byd o lygredd cyn fy nghladdu.

26—Dyma fan lle caiff y duwiol.
Llwyr dawelwch yn dra'gwyddol,
Oddi wrth bla calon a phechodau,
Rhai fu yn ei flino am flynyddau.

27—Dyma fan bydd teulu 'r Iesu,
O unfryd calon yn ei folianu,
Au telynau auraidd hyfryd,
Tudraw i'r llen ynngwlad y gwynfyd.

28—Wel bellach rhaid i mi rhoi fynu,
Ni chawn yma o'i cwmpeini,
Ni awn oll 'r un wlad a hwythau,
Ond ni ddont byth nol atom ninau.

WILLIAM DAVIES, Rhiw, Llanfiangelnantbran, a'i cânt.

JOHN MORGAN, ARGRAPHYDD, HEOL FAWR, ABERHONDDU.

X2053 13298